

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion cyfarfod rhithwir y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr R Dew, John Griffith, K P Hughes, T LI Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R LI Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAGS, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers a Dafydd Rhys Thomas.

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr,  
Dirprwy Brif Weithredwr,  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,  
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,  
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,  
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,  
Pennaeth Gwasanaethau Tai,  
Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd,  
Swyddog Pwyllgor (MEH),

**HEFYD YN** Dim

**BRESENNOL:**

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Richard Griffiths, Dylan Rees, Ieuan Williams a Robin Williams.

Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 1. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw un.

### 2. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:-

- Mae'r cyfyngiadau presennol o ran y pandemig bellach wedi bod ar waith ers cyn y Nadolig ac mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol i bawb yn ogystal ag i wasanaethau'r Cyngor. Mae'n bwysig bod pawb yn dilyn y rheolau yn ystod cyfnod lle mae gwaith pwysig yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gyflwyno'r

brechlyn drwy'r wlad. Diolchodd y Cadeirydd i'r staff am eu hymrwymiad yn ystod y cyfnod anodd hwn a diolchodd hefyd am gefnogaeth gwasanaethau eraill sy'n cefnogi'r sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat. Mynegodd ei chydymdeimlad yn ystod y cyfnod anodd hwn â'r rhai sydd wedi colli teulu agos a ffrindiau.

- Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Lewis Davies yn dilyn ei benderfyniad i ymdeol fel Aelod Etholedig o'r Cyngor. Bu'r Cynghorydd Davies yn Aelod dros Ward Seiriol am nifer o flynyddoedd a diolchodd y Cadeirydd iddo am ei wasanaethau.
- Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Prif Weithredwr, Mrs Annwen Morgan ar ddod yn nain unwaith eto.

\* \* \* \*

Estynnwyd cydymdeimlad i deuluoedd Mr Robert Hughes o'r Adran Wastraff a Ms Maureen Williams o Ysgol Corn Hir a fu farw'n ddiweddar.

Estynnwyd cydymdeimlad i Mr Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol a gollodd ei fam yn ddiweddar.

Estynnwyd cydymdeimlo hefyd i unrhyw Aelod neu staff a oedd wedi dioddef profedigaeth.

Talodd yr Aelodau a'r Swyddogion deyrnged dawel fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

\* \* \* \*

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr yn ei rôl fel Swyddog Canlyniadau y bydd yr isetholiadau ar gyfer y seddi gwag ar Ward Caergybi a Ward Seiriol ar Gyngor Ynys Môn yn cael eu cynnal ar 6 Mai 2021 ar y cyd ag Etholiadau'r Cynulliad ac Etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

### **3. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD - AILSTRWYTHURO'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr o ran ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i'r Cyngor ei dderbyn.

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio dros Fusnes Corfforaethol yr adroddiad fel un sy'n rhoi sylw i ailstrwythuro arfaethedig yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r newidiadau yn sgil hynny i'r cyfansoddiad.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2020 i adlewyrchu ailstrwythuro mewnol yr uwch dîm rheoli gan y cyn Brif Weithredwr yn 2019. Yn dilyn ymadawiad y Prif Weithredwr, penodwyd y Dirprwy Brif Weithredwr yn Brif Weithredwr a penodwyd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol yn Ddirprwy Brif Weithredwr. Ers mis Tachwedd, 2019 mae rôl Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol wedi bod yn wag er bod y swydd wedi'i hysbysebu'n allanol ddwywaith. Yn dilyn yr ymgyrch hysbysebu aflwyddiannus gyntaf, mae dyletswyddau swydd y Cyfarwyddwr wedi'u cyflawni gan ymgeisydd mewnol a benodwyd yn Bennaeth

Gwasanaeth Dros Dro – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a swyddog a benodwyd yn arweinydd ar lunio lleoedd.

Dywedodd y Prif Weithredwr ymhellach fod argyfwng y pandemig wedi dangos bod yn rhaid i'r Cyngor gael swyddogion â chymwysterau addas mewn meysydd penodol ar gyfer y dyfodol; mae ymateb y coronafeirws hefyd wedi dangos yn glir bwysigrwydd cymwyseddau priodol ar gyfer swyddi ar y lefel hon. Yn ogystal â hyn, mae cyfnod y pandemig hefyd wedi profi mor hanfodol bwysig yw gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i feithrin cydnerthedd cymunedol i ddelio â heriau gwahanol y mae angen amser digonol a rhesymol ar swyddogion gwaith i'w gwneud. Mae angen digon o gapasiti cytbwys ar draws yr holl wasanaethau i sicrhau gwydnwch y Cyngor yn y dyfodol o fewn haen uwch o reoli ac arweinyddiaeth. Er bod trefniadau dros dro wedi gweithio'n dda, nid ydynt yn effeithiol yn y tymor hir. Mae'n ofynnol gwneud penderfyniad mewn perthynas â rôl y Cyfarwyddwr a'r swyddi dros dro a grëwyd o ganlyniad i fethu â recriwtio i'r swydd honno.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Penodiadau ar 18 Rhagfyr 2020 yn gofyn am ei argymhelliad ar gyfer y ffordd orau ymlaen i lenwi'r bwlch yn uwch dîm rheoli'r Cyngor. Yn yr adroddiad hwnnw, mynegodd y Prif Weithredwr ei barn broffesiynol mai'r opsiwn gorau fyddai dileu swydd y Cyfarwyddwr a phenodi un Pennaeth Gwasanaeth rheoleiddio a Datblygu Economaidd a thrwy hynny ddileu'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r uwch Dîm; byddai'r Dirprwy Brif Weithredwr yn arwain yn ymarferol ar yr agwedd hon ar y swydd yn yr Uwch Dîm. Felly, byddai angen ystyried cefnogi rhai o ddyletswyddau'r Dirprwy ac, o dan ei oruchwyliaeth, eu cysylltu â'r agwedd Lluoio Lle o rôl y Cyfarwyddwr. Yr opsiwn symlaf fyddai creu swydd ychwanegol ar Raddfa 9 i ddarparu capasiti a gwydnwch ar gyfer y strwythur a chefnogi'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd newydd. Cymeradwyodd y Pwyllgor Penodiadau'r dull hwn a nodir ei benderfyniadau ffurfiol i'r perwyl hwnnw yn yr adroddiad. Mae adrannau 5 a 6 o'r adroddiad yn nodi'r goblygiadau o safbwynt cyfansoddiadol a'r newidiadau sydd i'w gwneud i adlewyrchu'r strwythur UDA/Penaethiaid Gwasanaeth diwygiedig arfaethedig.

Gofynnodd y Cynghorydd A M Jones a oedd y swydd ychwanegol arfaethedig Graddfa 9 un lefel yn is na swydd Pennaeth Gwasanaeth. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid fod amodau cyflogaeth Penaethiaid Gwasanaeth yn wahanol o gymharu â Swyddogion eraill y Cyngor. Mae graddfeydd cyflog Cynigion eraill y Cyngor yn cael eu graddio o Raddfa 1 i 10. Roedd y Cynghorydd Jones o'r farn bod y swydd Graddfa 9 yn debyg i'r swydd Pennaeth Polisi a grewyd yn flaenorol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y profiad o ddelio â'r pandemig wedi dangos y bydd angen i'r gofynion ar gyfer gwydnwch a chapasiti o fewn gwasanaethau a newid yn yr hinsawdd fod yn uchel ar yr agenda o fewn y Cyngor. Bydd angen mynd i'r afael â Lluoio Lle hefyd ac y bydd yn rhan o ddyletswyddau'r swydd Gradd 9.

Dywedodd y Cynghorydd Jones ymhellach nad yw rhan o'r adroddiad i'r Pwyllgor Penodi wedi'i chyflwyno i'r Cyngor sy'n darllen fel a ganlyn:-

*' Bydd y profiad hwnnw o'r Pwyllgor Penodi yn gallu tystio mai prin yw'r ymgeiswyr ar gyfer unrhyw swyddi uwch ar y lefel hon beth bynnag fo'r maes gwasanaeth, oherwydd cyfuniad o ffactorau megis lleoliad y Cyngor, maint y Cyngor, gofynion ieithyddol y swydd ac ati.'*

Dywedodd y Cynghorydd Jones ei fod wedi mynegi yn y Pwyllgor Penodi nad yw'r datganiad uchod yn yr adroddiad yn mynd i'r afael â'r sefyllfa a wynebwr wrth recriwtio i swyddi uwch a dywedodd y byddai'n pleidleisio yn erbyn yr argymhellion sydd gerbron y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd fod y rhan o'r adroddiad i'r Pwyllgor Penodi a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2020 mewn adroddiad cyfrinachol ac mai dyna pam nad yw wedi'i gynnwys yn yr adroddiad i'r Cyngor. Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd A M Jones ei fod wedi cael cyngor cyfreithiol gan y Swyddog Monitro i godi'r mater gan ei fod o'r farn ei fod wedi'i

dynnu allan yn anghywir o'r adroddiad i'r Cyngor. Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd o'r farn bod y datganiad yn gyfrinachol.

Holodd y Cynghorydd R Ll Jones a fydd y disgrifiad swydd ar gyfer swydd Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn cael ei roi i'r Aelodau Etholedig. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid fod yr holl ddisgrifiadau swydd ar gyfer swyddi a hysbysebir ar wefan y Cyngor i'r cyheodd eu gweld.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi argymhellion y Pwyllgor Penodiadau a chadarnhau:**
  - Dileu swydd Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol (swydd sydd hefyd wedi ei hadnabod fel Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn ystod y broses recriwtio ddiweddar) o Gyfansoddiad y Cyngor;
  - Creu rôl barhaol Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ac i'r rôl hon gael ei hysbysebu'n allanol;
  - Sefydlu a hysbysebu'n allanol swydd newydd, sef Swyddog Strategaeth Gorfforaethol.
- Cadarnhau cynnwys Atodiad 2, sy'n adlewyrchu'r diwygiadau uchod i strwythur y Cyngor, yng Nghyfansoddiad y Cyngor;
- Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Prif Weithredwr (yn dilyn ymgynghoriad), yn unol â'r awdurdod sydd wedi ei gynnwys yn rhan 3.5.2.11 o'r Cyfansoddiad, ac o ganlyniad i'r newid strwythurol uchod, yn rhannu'r meysydd cyfrifoldeb perthnasol ymhlith yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth, fel bo'r angen.
- Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Swyddog Monitro, yn unol â'r awdurdod sydd wedi ei gynnwys yn rhan 3.5.3.6.6 o'r Cyfansoddiad, yn diwygio'r Cyfansoddiad (gan gynnwys y cynllun dirprwyo i swyddogion) i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â'r newid strwythurol uchod a dosbarthiad y cyfrifoldebau ymhlith yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth fel y gwnaed gan y Prif Weithredwr dan 7.1.3 uchod;
- Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Swyddog Monitro yn gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol eraill i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r argymhellion uchod.

Bu i'r Cynghorydd A M Jones ymatal rhag pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.35 pm

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS  
CADEIRYDD**